PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

Profiad Myfyrwyr Gorau yn y Wlad 2010

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… mwy na thebyg y lle gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 4
Chwefror/Mawrth
2011

**NEWYDDION PRIFYSGOL**

# Penodi Is-Ganghellor



Penodwyd yr **Athro April McMahon** yn Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth.

Ar hyn o bryd, mae'r Athro McMahon yn Is-Brifathro Polisi Cynllunio, Adnoddau ac Ymchwil ym Mhrifysgol Caeredin. Fe fydd yn olynu'r Athro Noel Lloyd ar 1af o Awst 2011.

Yn frodor o Ororau'r Alban ac yn rhugl yn y Sgoteg, enillodd yr Athro McMahon radd MA ym maes Iaith ac Ieithyddiaeth Saesneg ac yna Doethuriaeth ym maes Iaith Saesneg ym Mhrifysgol Caeredin.

Bu'n dysgu yn yr Adran Ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt am 12 mlynedd, lle'r oedd hefyd yn Gymrawd yng Ngholeg Selwyn, a bu'n Athro Iaith ac Ieithyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Sheffield o 2000 tan 2004.

Yn 2005 aeth yr Athro McMahon yn ei hôl i Brifysgol Caeredin ar ôl ei phenodi yn Athro Forbes Iaith Saesneg ac yn bennaeth ar yr Adran Iaith ac Ieithyddiaeth Saesneg. Yn dilyn hyn cafodd ei phenodi'n Bennaeth Coleg y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol cyn dechrau ar ei swydd bresennol yn Is-Brifathro ym mis Medi 2009.

Wrth sôn am ei phenodiad meddai'r Athro McMahon:


"Rydw i wrth fy modd â'r syniad o arwain Prifysgol Aberystwyth ac yn edrych ymlaen at weithio'n gadarnhaol mewn amgylchedd dwyieithog a byw mewn ardal o Gymru sydd mor fywiog yn ddiwylliannol. Mae hwn yn gyfnod o heriau a chyfleoedd i brifysgolion ac rwyf yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda staff a myfyrwyr er mwyn arwain y Brifysgol drwy'r cyfnod nesaf yn ei datblygiad."

Mae'r Athro McMahon yn ieithydd brwd ac yn siarad Ffrangeg, Almaeneg a rhywfaint o Aeleg yr Alban. Bydd yn mynd ati i ddysgu'r Gymraeg yn ystod y misoedd nesaf.

Ieithyddiaeth yw ei disgyblaeth academaidd yr Athro McMahon. Mae ei hymchwil wedi canolbwyntio ar gymariaethau rhwng gwahanol dafodiaethau Saesneg, gyda diddordeb arbennig mewn Sgoteg, sut a pham mae ieithoedd yn newid, astudiaethau amlddisgyblaethol o'r berthynas deuluol rhwng ieithoedd, a goblygiadau ieithoedd mwyafrifol tresmasol.

The Queen's Anniversary Prizes
2009

2 Gweithio gyda'n gilydd i lunio ein dyfodol

5 Newid hinsawdd

7 Hyfforddi athrawon

9 Llysgennad creadigol


## Dadl y Refferendwm

Cafodd y gyntaf o dair dadl deledu ar Refferendwm y Cynulliad Cenedlaethol sydd i'w chynnal ar y 3ydd o Fawrth, ei darlledu o Adeilad Gwleidyddiaeth Rhyngwladol.

Cyflwynwyd y rhaglen 'Referendum 2011 - The Power Debates' gan Betsan Powys, Golygydd Gwleidyddol BBC Cymru a chyn-fyfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth.

Y panelwyr oedd Nick Martin o True Wales, Russell Goodway, cyn arweinydd Llafur ar Gyngor Dinas Caerdydd, Kirsty Williams, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru, a Martin Shipton, Golygydd Gwleidyddol y Western Mail.



NEWYDDION PRIFYSGOL

# Gweithio gyda'n gilydd i lunio ein dyfodol:

## Cam nesaf y Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd

### Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor Gwasanaethau Staff a Myfyrwyr

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymdrechu'n fawr i wella'i pherfformiad academaidd ac economaidd. O ganlyniad i hynny, mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy'n dod yma, maent yn llawer mwy bodlon eu byd, mae'r canlyniadau yn Asesiad Ymchwil 2008 yn dda ac mae'r Brifysgol mewn sefyllfa ariannol iach.

Oherwydd y llwyddiannau hyn, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa gref i oresgyn yr heriau mawr y bydd yn rhaid i bob prifysgol ymrafael â nhw dros y blynyddoedd nesaf, o flaenoriaethau newydd o ran polisi'r Llywodraeth, lleihad sylweddol mewn cyllid cyhoeddus a newidiadau sylweddol ym marchnadoedd dysgu, ymchwil a mentrau academaidd eraill.

Er mwyn ymbaratoi tuag at yr heriau sydd ar y gorwel, cychwynnodd y Brifysgol ar y Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd, sy'n ceisio gwella ar y llu o enghreifftiau sydd gennym o ddatblygiadau arloesol sy'n ymateb yn dda i bethau.

**Beth sydd wedi'i gyflawni yn y Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd hyd yma?**

Mae dau gam cyntaf y Rhaglen bellach wedi'u cwblhau. Yn ystod y cam cyntaf, cydweithiodd PA Consulting â'r Brifysgol i greu'r achos dros newid drwy ystyried effeithiau posib y newidiadau sydd ar ddod o ran polisi, cyllid a'r farchnad. Ystyriwyd blaenoriaethau strategol y Brifysgol hefyd. Roedd ail gam y Rhaglen yn canolbwyntio ar weithredu'r ymrwymiad i'r newidiadau hyn a datblygu rhaglen eang o gynigion a fyddai'n arwain at welliannau strategol a gweithredol.

Daethpwyd â'r gwaith hwn ynghyd yn yr adroddiad am Gam 2 (a gyhoeddwyd ar safle SharePoint y Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd: share.aber.ac.uk/projects/sustain/default.aspx). Mae'n rhoi barn allanol inni gan PA Consulting ynglyn â'r galluoedd ac mae'r farn allanol hon yn ffynhonnell allweddol o syniadau i'n helpu ni i ddiffinio'r ffordd y byddwn yn ychwanegu at ein llwyddiannau a sicrhau bod y llwyddiannau hynny'n gynaliadwy.

**Cam nesaf y Rhaglen**

Rydym ar fin dechrau ar drydydd cam y Rhaglen lle byddwn ni, fel cymuned y Brifysgol, yn diffinio ac yn gweithredu newidiadau i wireddu gweledigaeth y Brifysgol i'r dyfodol. Mae'r cam hwn yn broses fewnol sy'n cael ei harwain gan y Brifysgol a bydd yn defnyddio arbenigedd a gwybodaeth aelodau'r Cyngor, y Senedd, y staff a'r myfyrwyr. Nid rhaglen sy'n ymateb i bethau yw hon - mae gennym farn allanol ynglŷn â'r Brifysgol gan PA ac mae nawr yn rhaid inni lunio'n dyfodol ein hunan mewn ffordd ragweithiol. Mae adroddiad PA yn gyfraniad tuag at y broses o fwrw 'mlaen â phethau.

I sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei harwain yn strategol, mae Grŵp Llywio wedi'i greu (dan gadeiryddiaeth y Llywydd). Bydd y Grŵp yn atebol i'r Cyngor. Mae'r Grŵp Llywio'n cael ei gefnogi gan Fwrdd y Rhaglen (dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor) a nod y Bwrdd hwn yw dylanwadu ar gynllun gwaith y Rhaglen a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu.

**Y pedwar mawr: elfennau datblygu'r Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd**

Daethpwyd â'r rhaglen gynigion a oedd yn deillio o'r adroddiad am Gam 2 y Rhaglen ynghyd dan bedair elfen ddatblygu ac mae arweinwyr sy'n ymroddedig i weithio â chymuned y Brifysgol i sicrhau'r canlyniadau gorau yn llywio'r gwaith. Dyma nhw:

Rheoli Arweinyddiaeth a Llywodraethu:
**Ms Sue Chambers**, Cyfarwyddwr yr Adran Adnoddau Dynol

Datblygiad Academaidd a Pherfformiad:
**Yr Athro Tim Woods**, Deon y Celfyddydau

Darparu Gwasanaethau a Systemau Gweithredu:
**Yr Athro Mike Woods**, Pennaeth y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu:
**Yr Athro Len Scott**, Deon y Gwyddorau Cymdeithasol

Yn seiliedig ar sgyrsiau ac ymgynghori cychwynnol, mae arweinwyr yr elfennau datblygu wedi dechrau datblygu cynlluniau gweithredu a rhannu'r newyddion diweddaraf yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen, fel nad yw'r elfennau a'r cyfleoedd cyffredin yn cael eu hanwybyddu wrth i'r Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd fynd yn ei blaen.

**Cymryd rhan**

Mae llwyddiant y cam hwn yn dibynnu ar un peth pwysig iawn - eich cyfraniad chi! Mae angen eich help chi arnom ni fel y gallwn, gyda'n gilydd, ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o:

- Wneud ein gwaith yn haws a'i orffen yn gynt drwy symleiddio pethau a lleihau biwrocratiaeth
- Adnabod, dathlu ac adeiladu ar ein llwyddiant o ran y profiad i fyfyrwyr, yr addysg, yr ymchwil a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu
- Cryfhau ein brand a'n henw da yn rhyngwladol
- Sicrhau gwerth am arian drwy weithio'n effeithiol ac yn effeithlon

Mae Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Rhaglen Gwella Cynaliadwyedd yn mapio'r ffordd y gallwn elwa i'r eithaf ar y fforymau a'r ffyrdd sydd gan ein staff o drafod syniadau a dulliau newydd, ynghyd â chyflwyno ffyrdd newydd a hawdd o rannu arloesedd a gwybodaeth.

Byddem yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r staff tuag at bob elfen ddatblygu, felly dewch i'r sesiynau i sicrhau ein bod yn clywed am eich syniadau chi, darllenwch y diweddariadau a'r negeseuon newyddion ac ymatebwch i gwestiynau yn y Fforwm Trafod ar y safle SharePoint (sy'n cynnwys Blwch Awgrymiadau: share.aber.ac.uk/projects/sustain/default.aspx).

Mae dyfodol y Brifysgol yn eich dwylo chi – cymerwch ran!

CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth. Ffôn 01970 621763 E-bost cyfathrebu@aber.ac.uk.

Os ydych am gynnig eitem ar gyfer ei chyhoeddi gallwch wneud hynny ar bapur neu drwy e-bost. Yn anffodus, oherwydd prinder gofod, ni fydd yn bosibl cyhoeddi pob eitem sydd yn dod i law.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Colofn yr Is-Ganghellor



Yn gyntaf llogyfarchiadau cynhesaf i'r Athro April McMahon sydd, fel y byddwch yn gwybod, wedi ei phenodi'n Is-Ganghellor Aberystwyth o'r cyntaf o Awst. Dymunaf bob llwyddiant iddi.

Llongyfarchiadau hefyd i Rebecca Davies, Cyfarwyddwraig y Gwasanaethau Gwybodaeth, ar gael ei phenodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor, a dymunaf bob llwyddiant iddi yn ei swyddogaeth newydd. Hi sy'n olynu Dr John Harries, a ymddeolodd yn ddiweddar. Rhoddodd John wasanaeth ffyddlon i'r Brifysgol, a gwerthfawrogwyd ei gyfraniad aruthrol mewn sawl swydd wahanol. Ei swydd ddiweddaraf oedd Dirprwy Is-Ganghellor.

Y trefniadau o ran portffolios y Dirprwy Is-Gangellorion yw mai'r Athro Aled Jones fydd y Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros Ymchwil, yr Iaith Gymraeg a rhyngwladoldeg, yr Athro Martin Jones fydd yn gyfrifol am Ansawdd, Safonau a Phrofiad Myfyrwyr, a Ms Rebecca Davies fydd y Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Staff a Myfyrwyr.

Mae newidiadau mawr ar droed ym maes Addysg Uwch ac mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd mawr. Cyhoeddir cyllideb derfynol y Cynulliad maes o law. Mae'r Cyngor Cyllido wedi awgrymu y bydd lleihad o 4% yn y grant rheolaidd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2010/2011 ystod y flwyddyn (sy'n gyfwerth ag oddeutu £1.25m i Aberystwyth). Ymddengys y gallai'r lleihad yn y gwaelodlin ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2011/2012 fod rhwng £1.5 a £2 filiwn arall i ni.

Mae'r model cyllido hefyd yn newid yn sylweddol, yn bennaf oll gan fod y meini prawf i sicrhau cyllid ymchwil yn mynd yn llymach, ac mae'n amhosib rhagweld â sicrwydd beth fydd effaith yr holl newidiadau disgwyliedig at ei gilydd.

Mae'r lleihad yn y cyllid eleni'n cyd-fynd â'r hyn a ddisgwyliwyd a bydd ffynonellau incwm eraill yn gwneud yn iawn am y lleihad hwnnw. Bydd y lleihad yn y flwyddyn academaidd nesaf yn llawer anos i bawb a bydd yn her fawr. Ar ôl hynny, wrth gwrs, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi'i gynlluniau sy'n ymwneud â chyfraniadau graddedigion. Rhaid trafod rhagor ar yr union ffordd y bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu.

Un agwedd ar bolisi'r llywodraeth yw pwysigrwydd cydweithredu ac ad-drefnu'r sector. Mae uno wedi bod yn ffenomen gyffredin dros y blynyddoedd diwethaf, e.e. yr uno â Choleg Amaethyddol Cymru, Coleg Llyfrgellwyr Cymru a Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd yn fwy diweddar. Yn debyg i bob sefydliad arall, mae gennym bortffolio o ffyrdd o gydweithredu ag eraill. Mewn rhai achosion, uno yw'r mecanwaith priodol, ac mae Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd yn enghraifft dda o hyn. Mewn achosion eraill, cytuno ar gydweithredu strategol yw'r ffordd ymlaen.

Sefydlasom y Bartneriaeth Ymchwil a Menter â Phrifysgol Bangor gan ein bod yn argyhoeddedig bod cydweithredu o'r math hwn yn angenrheidiol i greu'r ystod o arbenigeddau y mae eu hangen i fod yn gystadleuol yn ein gwaith ymchwil ar lefel ryngwladol. Yn ogystal â hynny, rydym yn fodlon iawn â'r llwyddiannau a gafwyd.

Rydym yn ymroddedig i ehangu a dyfnhau'r bartneriaeth â Bangor ac mae'r Athro John Hughes, Is-Ganghellor newydd Prifysgol Bangor, a minnau yn cydweithio i ddatblygu hyn. Wrth gwrs, sefydlwyd Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru yn ddiweddar hefyd, ac rydym yn fodlon iawn â'r ffordd y mae'r fenter hon wedi'i chreu.

Mae'r berthynas â Bangor yn un bwysig ond nid ydym wedi ein cyfyngu i'r bartneriaeth hon yn unig. Yn wir, mae Prifysgol Aberystwyth yn awyddus iawn i gael trafodaethau â sefydliadau eraill fel bod modd cydweithio i gyflawni ein hamcanion strategol ni ac amcanion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae gennym farn benodol am gydweithredu a chredwn yn gryf bod yn rhaid targedu'r trefniadau'n dda ac y dylid cael amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir. Rhaid iddynt fod yn fuddiol i bob partner a rhaid i bob partner wneud cyfraniad clir. Rhaid i'r cydweithredu fod yn gynaliadwy, wrth reswm, a rhaid i arweinwyr y sefydliadau ei gefnogi hefyd, ynghyd ag aelodau unigol o'r staff sy'n rhan o'r broses hefyd. Wrth weithio yn y ffordd hon, mae modd manteisio'n llawn ar gryfder y prifysgolion mewn undod.

SWYDDFA IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD

# Cerdded o amglych y byd

Efallai fod Phileas Fogg wedi llwyddo i deithio o amgylch y byd ar drenau, llongau a hyd yn oed eliffantod yn nofel enwog Jules Verne Tour du Monde ên 80 Jours, ond ydych chi'n gallu cwblhau'r daith ar droed?

Mae mesurwyr camau ar gael am ddim i aelodau staff sy'n fodlon bod yn rhan o Her Cerdded o Amgylch y Byd 2011, menter gadw'n heini newydd sydd yn cael ei lansio gan Swyddfa Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y Brifysgol - www.aber.ac.uk/en/hse/.

Y cyfan sydd yn rhaid i chi ei wneud yw cofnodi pob cam rydych yn ei gymryd a llwytho'r wybodaeth ar gyfrifiannell ar lein a fydd yn dangos cyfanswm y camau sydd wedi eu cymryd ar unrhyw adeg. Y nod, er mwyn cwblhau'r daith, yw cymryd 48,800,000 o gamau.

Ar y 1af o Chwefror, roedd dros 300 o aelodau o staff wedi cofrestru a thros 27,000 o gamau wedi eu cofnodi.

Ond mae Dr Helen Williams sy'n trefnu'r her yn awyddus i fwy fyth o bobl gofrestru. "Y nod yw cymell pobl i gerdded mwy a mwynhau



*Yn bresennol yn achlysur lansio Her Cerdded o Amgylch y Byd 2011 (o'r chwith i'r dde) mae Helen Williams, Rob Johnson, yr Athro Noel Lloyd, Dr Catrin Hughes – Cofrestrydd ac Ysgrifennydd, Allan Evans a Carol Parry.*

rhai o'r manteision iechyd sydd yn deillio o fywyd bywiog," dywedodd".

Dyw hi ddim yn yn rhy hwyr i ymuno. Cysylltwch â Helen heddiw hew@aber.ac.uk / 2169 er mwyn ein helpu i gyrraedd pen draw'r daith!

# Chwarae plant

Dyma gyflwyno iCub, y robot dynol a fydd yn datblygu drwy efelychu'r ffordd y mae plant yn dysgu.

Fe'i prynwyd gan Grŵp Roboteg Datblygiadol yr Adran Gyfrifiadureg sydd yn rhan o raglen ymchwil traws-Ewropeaidd gwerth €5.9m, "IM-CLeVeR", i ddatblygu rheolyddion robotaidd newydd.

Gobaith y tîm yw galluogi robotiaid i ddysgu mewn ffyrdd mwy hyblyg na'r rheini a raglennir gan ddefnyddio ddulliau traddodiadol, ac i wneud hyn drwy gydweithio gydag arbenigywr mewn niwrowyddoniaeth, seicoleg ddatblygiadol a dysgu peiriant.

Mae gan y Grŵp Roboteg Datblygiadol ddiddordeb arbennig mewn deall yr hyn sydd yn atal babanod rhag defnyddio rhai galluoedd penodol cyn i eraill gael eu meistroli'n ddigonol.

Y tîm IM-CLeVeR yn Aberystwyth yw'r Athro Mark Lee (Arweinydd y Tîm), Dr Martin Hülse, Dr James Law, a Dr Patricia Shaw.



Y GYFRAITH a THROSEDDEG

## Troseddu a chyfiawnder cymdeithasol



Kate Williams a'r Athro Noel Cox, Pennaeth Adran y Gyfraith yn Aberystwyth yn achlysur lansio Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru

Cafodd canolfan newydd sy'n dwyn ynghyd arbenigwyr mewn troseddeg, polisi cymdeithasol, y gyfraith a seicoleg o Brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Morgannwg, Glyndŵr, Casnewydd ac Abertawe ei lansio gan Y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC ddiwedd Tachwedd.

Bydd Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru (WCCSJ) yn pontio meysydd polisi datganoledig a'r rhai sydd heb eu datganoli, gan gynnwys ymatebion cyfiawnder troseddol i drais a strategaethau i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd y Ganolfan yn cynnig ymchwil o safon uchel sydd yn berthnasol i bolisi ar draws Cymru, ynghyd â chyngor, hyfforddiant, seminarau a gweithdai. Bydd yn adnodd gwerthfawr i Lywodraeth y Cynulliad a sefydliadau llywodraethol, cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector.

Kate Williams, darlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth yw Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan. "Mae hon yn fenter newydd gyffrous fydd yn caniatáu academyddion ar draws Cymru i ddarparu ymchwil a gwybodaeth i ymarferwyr a llunwyr polisi i'w galluogi i lunio polisi troseddol a chymdeithasol i Gymru a fydd yn sicrhau ymatebion gwahanol, cynhwysol, cyfiawn a chefnogol i broblemau a achosir gan droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol."

Lleolir swyddfa Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, sydd wedi'i hariannu'n rhannol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn Adran y Gyfraith. wccsj.ac.uk

BIOLEG, YR AMGYLCHEDD A'R GWYDDORAU GWLEDIG

# BEACON

Mae IBERS yn arwain rhaglen gwerth £20 miliwn a allai hybu'r economi gwyrdd a gwneud cyfraniad pwysig i ymladd newid hinsawdd.

Mae BEACON yn cyfuno arbenigedd gwyddonwyr o brifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe i ddatblygu technolegau a dulliau newydd o gynhyrchu deunyddiau sydd yn draddodiadol yn cael eu gwneud o olew.

Cafodd ei lansio gan y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, yn y Senedd yng Nghaerdydd ar nos Fawrth y 15ed o Chwefror, mewn derbyniad i arddangos yr ymchwil o safon byd eang sydd yn cael ei wneud yma yn Aberystwyth mewn ymateb i heriau byd eang yr 21ain ganrif.

Mae gwyddonwyr IBERS yn edrych ar sut y mae defnyddio cnydau a dyfir yn lleol i greu cynnyrch diwydiannol megis colur, cyffuriau, tecstilau a chynhyrchion bwyd ac iechyd.

Daw £10.5m o gyllid y cynllun o'r Gronfa Ddatblygu Ewropeaidd Ranbarthol.




Yn y llun: Yr Athro Noel Lloyd a'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones yn lansiad BEACON.

# Newid Hinsawdd

DAEARYDDIAETH a GWYDDORAU DAEAR

## Taith i begwn y de

Wrth i Newyddion Aber fynd i'w wely mae tîm o wyddonwyr o dan arweinyddiaeth yr Athro Neil Glasser o Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear wedi cyrraedd hanner ffordd ar eu taith ddeufis i'r Antarctig.

Eu nod yw chwilio am dystiolaeth ynghylch sut y bu rhewlifoedd a llenni iâ Penrhyn gogledd ddwyreiniol yr Antarctig yn ymddwyn yn y gorffennol a'r hyn y gallwn ni ei ddisgwyl yn y dyfodol.

Dros yr hanner canrif ddiwethaf mae Penrhyn yr Antarctig wedi dioddef cynhesu uwch na'r cyfartaledd, (o ddeutu 2.5°C o gynnydd er 1950), gan achosi i rewlifoedd a llenni iâ doddi a rhyddhau llawer iawn o ddŵr ffres i'r cefnforoedd; mae hyn yn codi lefel y môr a hefyd yn dylanwadu ar gylchrediad y dyfnfor a'r hinsawdd ranbarthol.

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng tymheredd yr aer a'r môr â'r modd y mae iâ yn toddi, bydd y tîm yn casglu samplau o graig ac yn dyddio eu hamlygiad i ymbelydredd cosmig.


Professor Neil Glasser.

Dylai'r data sy'n dilyn ddatgelu sut mae'r rhewlifoedd a'r iâ wedi crebachu ers yr oes iâ ddiwethaf, tua 20,000 o flynyddoedd yn ôl.

"Credir yn gyffredinol fod cwymp llenni iâ'r Antarctig yn digwydd o ganlyniad i gynhesu yn yr atmosffer, ond mae'n ymddangos bod newidiadau yn nhymheredd y môr a strwythur y llen iâ hefyd yn bwysig," meddai' r Athro Neil Glasser.

Gyda chyfarpar yn cynnwys pedwar beic cwad, dau drelar, cyfarpar gwyddonol, pebyll a digon o fwyd a thanwydd i bara tri mis, teithiodd y tîm i Benrhyn yr Antarctig ar fwrdd y Llong Ymchwil Frenhinol Earnest Shackleton.

Caiff yr ymchwil ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil i'r Amgylchedd Naturiol.



BIOLEG, YR AMGYLCHEDD A'R GWYDDORAU GWLEDIG

## Astudiaeth methan

Mae IBERS yn arwain prosiect gwerth £3.9 miliwn i wella ein dealltwriaeth o'r nwy methan niweidiol sy'n cael ei greu trwy ffermio ac o werth ymdrechion y diwydiant i'w reoli.

Mae'r nwy tŷ gwydr hwn 25 o weithiau'n fwy pwerus na charbon deuocsid, ac amaeth oedd yn gyfrifol am tua 38% o holl allgyriadau methan y Deyrnas Unedig rhwng 1990 a 2008.

Bydd tîm IBERS yn helpu i ddatblygu system llawer mwy soffistigedig, gan asesu effaith gwahanol fathau o dda byw, gwahanol fwydydd a gwahanol ddulliau o ffermio. Byddant hefyd yn asesu sut mae ffermwyr yn torri'n ôl ar allgyriadau trwy addasu eu systemau, ac yn dangos pa ddulliau sy'n gweithio orau.

Mae'r astudiaeth hon yn rhan o raglen ymchwil ehangach gwerth £12.6 miliwn o'r enw The Agricultural Greenhouse Gas Inventory Research Platform, sy'n derbyn arian gan yr Adran Amgylchedd,



Amaeth a Materion Gwledig (DEFRA) gyda chyfraniadau gan lywodraethau datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y sefydliadau eraill sy'n rhan o'r prosiect yw: Coleg Amaethyddol yr Alban, AFBI Hillsborough, Prifysgolion Reading a Nottingham, Rothamsted Research North Wyke a'r National Physical Laboratory.

CYFATHREBU a MATERION CYHOEDDUS.



*Lyn Morgan*

# Cyfathrebu mewn byd sy'n prysur newid

Lyn Morgan, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, sy'n ystyried y ffordd y mae'r tirlun cyfathrebu'n newid yn barhaus.




Nôl yn 1982 y graddiais o Aberystwyth ac roeddwn ar dân eisiau gweithio fel darlledwr proffesiynol. Fodd bynnag, fe'm tarodd yn eithaf buan na fyddai cychwyn ar yrfa yn y cyfryngau'n llanc ifanc yn fy arwain yn syth a diffwdan at enwogrwydd a ffortiwn; byddai rhai'n honni imi lwyddo i ddofi fy nisgwyliadau'n gynnar iawn. Fodd bynnag, cefais amserau da ar hyd y daith.

Byddai pobl yn aml yn fy holi, 'beth wyt ti'n ei wneud te?' Yn wir, mae'r cwestiwn hwnnw wedi fy llethu drwy gydol fy ngyrfa. Fel darlledwr am bron i chwarter canrif, byddai llawer yn fy holi, 'wel beth wyt ti'n ei wneud rhwng recordiau a rhaglenni newyddion...?' (Recordiau dd'wedes i? Ie, dyddiau syml, yn wir. Mae fy mhlant, sydd yn eu harddegau, yn rhythu arnaf mewn syndod wrth imi siarad am nodwyddau ar recordiau finyl a chasetiau y byddai'n rhaid eu troi â phensil petaent yn mynd yn sownd yn y peiriant). Fodd bynnag, fy ateb bob tro oedd fy mod yn gweithio â phobl i ddeall nodau ac amcanion prosiect neu stori, a cheisio cyfleu'r wybodaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Nobl iawn, rhaid dweud, ond mae hynny'n rhywbeth sydd wedi mynd yn llawer mwy cymhleth dros y blynyddoedd.

Yn 1982, roedd tirlun y cyfryngau a chyfathrebu'n eithaf syml. Byddai pobl yn ysgrifennu llythyron a chardiau post, byddent yn gwneud galwadau ffôn o linellau daear a byddent yn gwylio'r teledu drwy ddewis o blith tair sianel; neu os oeddech yn debyg i mi, ac yn byw ar hyd Bae Caerfyrddin, byddai modd cael Westward o bryd i'w gilydd. Nawr roedd hynny'n wyrthiol! Byddai busnesau'n cyfathrebu â'u staff drwy gylchlythyr, memo a chyfarfodydd; byddent yn cyfathrebu â'u cleientiaid drwy lythyr a llyfrynnau a byddent yn eu hyrwyddo'u hunain drwy hysbysebu ar y teledu ac yn y wasg. Fodd bynnag, mae popeth wedi newid erbyn hyn; rydym yn dystion i'r datblygiadau mwyaf syfrdanol ym maes technoleg gyfathrebu a thwf ystod eang o sianeli cyfathrebu newydd. O'r cyfryngau torfol i gyfathrebu i gynulleidfaoedd mwy cyfyngedig, pe dymunech.

Byddai gwerthwyr tai yn dweud wrthych chi mai'r cwestiwn cyntaf y maen nhw'n ei gael gan brynwyr posib yw a yw'r tŷ mewn ardal band eang. Dywed ffigurau diweddara'r Swyddfa Ystadegau Gwladol bod 70% o gartrefi'r Deyrnas Gyfunol bellach ar-lein a bod 90% o'r cartrefi hynny'n gallu mynd ar-lein drwy fand eang. Poblogaeth y Deyrnas Gyfunol yw ychydig oddi tan 62 miliwn ac mae gan 79% ohonom ffôn symudol.



Mae gan nifer o'r ffonau hyn gamera, felly wrth roi'r holl elfennau hyn at ei gilydd... y ffôn, y camera a'r gallu i fynd ar-lein, mae gennych y cynhwysion hanfodol i greu ton newydd o'r hyn sy'n cael ei alw bellach yn 'ddinasyddion-newyddiadurwyr'. Mae modd gweld hyn ar Facebook, Twitter neu You Tube, ynghyd â rhagor o adroddiadau am ddigwyddiadau ym mhedwar ban byd. Mae pobl wedi bod yn dystion i sawl digwyddiad o bwys yn y ffordd hon – y Tswnami yn Indonesia ar Ddydd San Steffan, 2004, yr ymosodiadau terfysgol yn Llundain ym mis Gorffennaf 2005 a'r protestiadau yn Nhibet yn 2008 – tair enghraifft dda.

Mae rhai sylwebyddion eisoes yn son am y dylanwad nid ansylweddol gafodd y cyfryngau cymdeithasol ar ddigwyddiadau yn Twnisia a'r Aifft.

Felly, beth yw arwyddocâd y newidiadau hyn i rywun fel fi, sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau cyfathrebu yn oes y cyfryngau digidol a chymdeithasol? Mae'n golygu bod yn rhaid cymryd cam yn ôl a chofio mai'r ffurf fwyaf pwerus ar gyfathrebu yw'r hyn sy'n mynd o A i B, yn y ffordd fwyaf diffwdan bosib, heb y 'sŵn' amgylcheddol sy'n llenwi'n bywydau bob dydd. Rhaid i sefydliadau ddeall y ffordd y mae eu 'rhanddeiliaid' yn defnyddio gwybodaeth, ac yn achos Addysg Uwch, mae hyn yn cynnwys y myfyrwyr, y staff, y rhieni, y gymuned leol a gwleidyddion. Realiti'r sefyllfa yw bod gwybodaeth yn rhywbeth amlweddog ac mae'n newid drwy'r amser. Rhaid inni fod ar flaen y gad a gweithio'n hyblyg.

Ac eto, hyd yn oed pan fo gennym gymaint o gyfleoedd i ddefnyddio'r dechnoleg newydd i'n helpu ni, mae un rhinwedd dynol yn tra-arglwyddiaethu, sef yr angen am gyswllt uniongyrchol. Felly, wrth imi edrych o'm cwmpas a meddwl am y prosiect neu'r her fawr nesaf, rwy'n oedi am ennyd ac efallai y codaf y ffôn. Hwyrach nad gwasgu'r botwm 'anfon' ar yr e-bost yw'r ffordd orau o wneud pethau bob tro. A nawr maen nhw'n dweud wrtha i mai cyfrwng ddoe yw e-bost!

**ADDYSG a DYSGU GYDOL OES**

# Hyfforddi athrawon

Bu i'r Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, lansio Canolfan newydd Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ddydd Gwener 14eg o Ionawr drwy gyfrwng cyswllt fideo byw rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yng Nghaerdydd.



*Dr Malcolm Thomas, Pennaeth yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, alumna Natalie Richards, Pennaeth Drama yn Llanilltud Fawr, yr Athro Noel Lloyd a'r Athro Martin Jones yn lansiad y Ganolfan newydd.*

Mae'r ganolfan newydd, sy'n cael ei rhedeg ar y cyd gan Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Aberystwyth a'r adran gyfatebol ym Mangor yn un o dair canolfan o'r fath yng Nghymru.

Fel rhan o'r trefniant cydweithio hwn mae Aberystwyth yn cynnig cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) i'r sector Uwchradd mewn Saesneg a Drama, Daearyddiaeth, Hanes, TGCh, Ieithoedd Modern, Gwyddoniaeth a Chymraeg, gyda'r ddau bwnc olaf yma hefyd yn cael eu cynnig ym Mangor.


Ym Mhrifysgol Bangor mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyrsiau gynradd, y cwrs BA tair blynedd mewn Addysg Gynradd (Statws Athro Cymwysedig) a'r cwrs blwyddyn Tystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Gynradd. Mae Bangor hefyd yn cynnig cyrsiau TAR Uwchradd mewn Celf, Mathemateg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol, a'r cwrs BSc Uwchradd (SAC) mewn Dylunio a Thechnoleg.

Wrth annerch 150 o staff a myfyrwyr yn Aberystwyth, fe groesawyd y datblygiad gan yr Athro Noel Lloyd. "Mae'n dyst i gydweithio rhagorol rhwng y ddwy brifysgol ac mae'n rhan o bartneriaeth ehangach sy'n parhau i ddatblygu ac ehangu. Mae'r rhwydwaith eang o bartneriaethau gydag ysgolion ar draws canolbarth a gogledd Cymru yn arbennig o werthfawr."

**NEWYDDION PRIFYSGOL**

# UKPASS

Prifysgol Aberystwyth yw'r gyntaf yng Nghymru i ymuno â UKPASS, y gwasanaeth ymgeisio ar-lein i ddarpar fyfyrwyr uwchraddedig.




Mae UKPASS, sy'n cael ei redeg gan UCAS, yn galluogi darpar fyfyrwyr uwchraddedig ledled y byd i chwilio ar-lein am gyrsiau ac ymgeisio i astudio mewn prifysgolion ym Mhrydain.

Cafodd y datblygiad ei groesawu gan Dr Hywel Davies, Cyfarwyddwr Denu a Derbyn Prifysgol Aberystwyth; "Yn ogystal â hwyluso'r drefn o ddod o hyd i gyrsiau addas ac ymgeisio, mae'r gwasanaeth di-dâl hwn yn hyblyg iawn. Dyma'r unig wasanaeth lle gellir cyflwyno cais yn Gymraeg neu yn Saesneg."

Gan fod gwybodaeth graidd yr ymgeisydd yn cael ei chynnwys mewn 'cyfrif' unigol, does dim angen i ymgeiswyr gwblhau ffurflenni di-rif ar gyfer pob cais - gellir anfon ceisiadau ar gyfer hyd at ddeg o gyrsiau gwahanol yn y sefydliadau a gynrychiolir ar UKPASS.

Caiff UKPASS ei redeg ochr yn ochr â llwybrau ymgeisio cyfredol, gyda'r holl geisiadau'n cael eu lawrlwytho i gronfa ddata AStRA Prifysgol Aberystwyth. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan www.ukpass.ac.uk.

# Penodiadau

## Dirprwy Is-Ganghellor

Penodwyd **Rebecca Davies** yn Ddirprwy Is-Ganghellor Gwasanaethau Myfyrwyr a Staff.



Ymunodd Rebecca â'r Brifysgol wedi iddi gael ei phenodi yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gybodaeth ym mis Mai 2009. Cyn hyn roedd yn Bennaeth Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n raddedig o Aber (Llyfrgellyddiaeth ac Addysg) ac astudiodd am ei Thystysgrif Olradd mewn Addysg yma hefyd.

Dywedodd am ei phenodiad, "Rwyf wrth fy modd o gael y cyfle hwn i weithio gyda staff dawnus Aberystwyth sydd mor ymroddedig i ddarparu gwasanaethau effeithiol i fyfyrwyr a'u cydweithwyr."

Penodiad tair blynedd yw swydd Dirprwy Is-Ganghellor yn y lle cyntaf.



## Ysgol Rheolaeth a Busnes

Mae **Julie McKeown** yn ymuno â'r Ysgol fel cymrawd addysgu mewn Marchnata. Cyn hyn bu Julie'n gweithio fel ymgynghorydd marchnata yn arbenigo mewn Marchnata Strategol, CRM/Gofal Cwsmeriaid a hyfforddiant marchnata. Roedd hi hefyd yn darlithio'n rheolaidd ar y pwnc mewn ysgolion busnes blaenllaw yn y DU ac mae'n arholwr i'r Sefydliad Marchnata Siartredig.



Ymunodd **Nishikant Mishra** â'r Ysgol fel Darlithydd Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi. Mae ei PhD yn trafod datblygiad system cynorthwyo penderfyniadau cynllunio radiotherapi. Mae'n gweithio ar y cyd â'r GIG. Ymysg ei ddiddordebau ymchwil mae modelu mathemategol, datblygu hewristig ac algorithmau i amrywiaeth o broblemau cynllunio ac amserlennu cynhyrchu gwirioneddol, cynllunio radiotherapi, y gadwyn gyflenwi a diagnosis namau.



Penodwyd **Wyn Morris** yn gymrawd addysgu yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes. Mae ganddo radd BSc mewn Rheoli Adnoddau Cefn Gwlad ac MSc Econ o Aberystwyth, a chyn hyn bu'n gweithio fel cydlynydd ardystio ac asesu i gynllun Da Byw Gwarant Cymru a Swyddog Ymchwiliadol i'r Arolwg Busnes Fferm. Diddordebau ymchwil Wyn yw economeg cefn gwlad, y gallu i olrhain a chwaraeon.

## IBERS



Mae **Dr Arwyn Edwards** wedi ymuno â IBERS fel Darlithydd mewn Bioleg (Cyfrnwg Cymraeg). Mae ganddo radd mewn Micro Bioleg a cwblhaodd ei ddoethuriaeth o dan oruchwyliaeth Dr Gareth Griffith a'r Athro Mike Young gan deithio o bryd i'w gilydd i Ganolfan Ymchwil yr Arctig NERC ar Svalbard. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall y cysylltiadau rhwng strwythyr a gweithrediad cymunedau microbig mewn perthynas â newid hinsawdd.



Penodwyd **Dr Joe Jackson** yn ddarlithydd mewn Söoleg ac mae'n ymuno ag IBERS o Brifysgol Lerpwl. Bu Dr Jackson yn astudio Bioleg y Môr yn Abertawe cyn cwblhau ei ddoethuriaeth ar Barasitoleg ym Mhrifysgol Llundain (Queen Mary). Bu hefyd yn gweithio ym mhrifysgolion Briste a Nottingham. Ei ddiddordeb ymchwil yw ecoleg ac esblygiad y berthynas rhwng organedd letyol a pharasit, gyda phwyslais arbennig ar y system imiwnedd.

Ymunodd **Dr Denis M. Larkin** IBERS fel darlithydd mewn Genomeg Anifeiliaid. Cwblhaodd Dr Larking ei ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Talaith Novosibirsk yn Rwsia cyn ymuno ag Adran Gwyddor Anifeiliaid, Prifysgol Illinois yn Urbana-Champaign, Illinois, UDA, yn gyntaf fel Ymchwilydd Cyswll Oldoethuriaethol ac yna fel Athro Ymchwil Cynorthwyol. Mae'n parhau i fod yn Uwch Wyddonydd yn sefydliad Cytoleg a Geneteg, Novosibirsk, Russia.



Mae'r **Dr Roger Santer** yn ymuno ag IBERS fel darlithydd mewn Söoleg. Cyn hyn bu'n ddarlithydd Bioleg ym Mhrifysgol Limerick yng Ngweriniaeth Iwerddon ac yn gymrawd ol-ddoethuriaethol ym Mhrifysgol Nebraska-Lincoln, UDA..

Mae **Dr Pippa Moore** yn ymuno ag IBERS o Ganolfan Ymchwil Ecosystemau Môr, Prifysgol Edith Cowan, Awstralia, fel darlithydd mewn Bioleg Dŵr. Mae'n raddedig o Brifysgol Plymouth lle y cwblhaodd ei doethuriaeth mewn Ecoleg y Môr a Newid Hinsawdd. Yn fwy diweddar bu'n gweithio fel Cymrawd Ymchwil Olddoethuriaethol ar gynllun rheoli pysgodfeydd gyda Sefydliad Gwyddoniaeth Môr Gorllewin Awstralia.

## Llysgennad Creadigol

Myfyriwr MA yr Ysgol Gelf, **Eleri Mills**, yw enillydd Dyfarniad Llysgennad Cymru Greadigol 2010/11.

Yn rhinwedd ei swydd fel llysgennad bydd Eleri yn derbyn gwahoddiad i fod yn artist gwadd ym Mhrifysgol Columbia, Efrog Newydd yn 2012, a bydd ei gwaith yn cael ei arddangos yn arddangosfa SOFA, (Cerfluniau a chelyfddyd ymarferol) Efrog Newydd 2012.

Meddai Robert Meyrick, Pennaeth yr Ysgol Gelf; "Mae Eleri yn artist penigamp ac yn ddewis ardderchog i wasanaethu fel Llysgennad Cymru Greadigol. Fel myfyriwr uwchraddedig printiadu, mae hi eisoes wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr ac arwyddocaol i'n cymuned ymchwil."

Mae gwaith Eleri yn cyfleu delweddau o dirwedd sy'n cyniwair ymdeimlad o hanes a theimlad bythol lle, amser a chwedl gan ddefnyddio gwniad a lliwiau coeth. Bydd casgliad o brintiadau a gynhyrchwyd ganddi fel rhan o'i chwrs MA yn cael ei arddangos yn Orielau Ysgol Gelf Aberystwyth ym mis Mai.



## Chwedl melinydd

Mae cyn aelodau o staff IBERS, **Andrew ac Anne Parry** wedi lansio detholiad o flawd organig newydd wedi'i gynhyrchu'n lleol.



*Dr. Huw McConochie o IBERS (chwith) gydag Anne ac Andrew Parry wrth felin ddŵr Melin Ganol.*

Mae Andrew, a ymddeolodd fel rheolwr cyfrifiaduron dair blynedd yn ôl, ac Anne, cyn-batholegydd planigion, wedi adfer Melin Ganol ger Llanrhystud , ac mae'r felin bellach mewn llawn weithrediad am y tro cyntaf ers dros 50 mlynedd.

Er mwyn sicrhau cyflenwad o wenith wedi'i dyfu'n lleol, aethant at eu cyn-gyflogwr, IBERS. Gan weithio gyda rheolwr fferm IBERS, Andrew McConochie, maent yn gallu cael cyflenwad o wenith o ffermydd IBERS ac yn edrych ar y posibilrwydd o gynhyrchu ceirch traddodiadol.

## Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd



Llongyfarchiadau i **Dr John Fish** o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol Amgylcheddol a Gwledig a anrhydeddwyd ag MBE am wasanaethau i'r diwydiant pysgota a'r amgylchedd morol.

Biolegydd morol yw Dr Fish, ac ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth fel darlithydd cynorthwyol yn yr Adran Swoleg yn 1965. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Sefydliad y Gwyddorau Biolegol yn 2002, gan ddal y swydd hyd 2007, a bu'n Ddeon y Gwyddorau rhwng 2006 a 2008.

Er ei fod bellach wedi ymddeol, mae Dr Fish yn parhau i ddysgu'n rhan amser ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau gwaith ar drydydd argraffiad o'r gwerslyfr *A Student's Guide to the Sea Shore* (Cambridge University Press) a ysgrifenodd ar y cyd gyda'i wraig, Susan.

# Er cof

Yn sydyn, ac ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, bu farw **Mr John Jones**, technegydd yn Adran Theatr Ffilm a Theledu, yn ei gartref yn Nolgellau. Ac yntau'n gydweithiwr yr oedd parch mawr tuag ato, roedd John wedi bod yn gweithio yn y Brifysgol ers 1972 ac yn Adran Theatr Ffilm a Theledu oddi ar 2000. Gan siarad ychydig wedi ei farwolaeth, dywedodd Elin Hefin, cydweithiwr yn yr Adran, 'Roedd John yn teithio ar y bws o Ddolgellau bob bore, a byth yn colli diwrnod o waith. O fewn oriau i'w farwolaeth annhymig roedd cyn-fyfyrwyr wedi creu tudalen deyrnged ar Facebook ac mae'r sylwadau yn dyst i'w amynedd, ei gyfeillgarwch, ei gymwynasgarwch di-ben-draw, ei haeloni yn rhoi ei amser i helpu eraill, ei synnwyr digrifwch a'i wybodaeth dechnegol. Mae ei farwolaeth wedi gadael bwlch enfawr yn yr adran. Roedd yn dechnegydd, oedd, ond roedd hefyd yn llawer, llawer mwy na hyn. Gorffwys mewn hedd John.'



## Teyrnged i Owain Baglow

Ar ddydd Mercher 8ed o Ragfyr, daeth 40 o fyfyrwyr ac aelodau saff ynghyd gydag aelodau o deulu Owain i gofio ac i ddathlu bywyd y myfyriwr talentog hwn fu farw'n drasig yn gynharach yn y flwyddyn.

Siaradodd ei gyd-fyfyrwyr am eu profiad yn gweithio gydag Owain ar brosiect grŵp, am ei arweiniad a'i gymwynasgarwch, am y gwaith a wnaeth i Bay Radio, ac am ei waith fel Llywydd Clwb Cerdded y Brifysgol. Disgrifiodd staff o Adran Gwasanaethau Gwybodaeth y gwaith a wnaeth Owain gyda hwy yn ystod ei gyfnod Blwyddyn mewn Diwydiant, gan nodi mor galed y bu'n gweithio a'r ffaith ei fod wedi dangos cymaint o addewid.

Cyflwynodd y Dirpwry Is-Ganghellor John Harries rieni Owain, Mike a Sue Baglow, gyda'r Diploma roedd Owain wedi'i ennill yn ystod ei gyfnod yn astudio yn Aberystwyth. Cyflwynwyd iddynt hefyd deyrnged wedi'i harwyddo ar ran yr Adran gan yr Athro Chris Price. Dywedodd bod Owain wedi bod yn fyfyriwr eithriadol a fyddai, gyda chyfartaledd o 75% yn ei farciau ail flwyddyn, wedi mynd ymlaen i ennill Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf.

Siaradodd tad Owain am yr hoffter mawr a deimlai ei fab tuag at Aberywstwyth, a diolchodd pawb oedd yn bresennol am fod yn rhan o'r amser gwych dreuliodd Owain yn y Brifysgol.

DIGWYDDIADUR

## Arddangosfeydd

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | | |
|---|---|---|
| **Tan 26 Mawrth** | **BP Portrait Award 2010** | Oriel 1 |
| **12 Mawrth – 30 Ebrill** | **Michel Huneault 'Histoires Normales'** | Oriel 2 |
| **Tan 16 Ebrill** | **Tymor 3:** Elen Bonner, Yang Jian, Tom Marshman, Harry Meados a James Johnson Perkins | Y Blwch |
| **Chwef – Ebrill** | Arlunydd Preswyl: Haider Ali Jan (Pacistan) | |
| **Mawrth – Mai** | Arlunydd Preswyl: Sai Hua Kuan a David Cushway | |

*Manylion llawn am raglen Canolfan y Celfyddydau ar gael ar aberystwythartscentre.co.uk*

## Perfformiadau a Digwyddiadau

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | |
|---|---|
| **3 Mawrth** | **Stan Tracey Trio** |
| **4-6 Mawrth** | **Côr Cymru Rowndiau Cynderfynol** |
| **10-16 Mawrth** | **WOW Wales One World Film Festival** |
| **15 Mawrth** | **'Gadael yr Ugeinfed Ganrif' Sherman Cymru** |
| **16-19 Mawrth** | **'Wuthering Heights'** Cynhyrchiad Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth |
| **17 Mawrth** | **BBC National Orchestra of Wales** |
| **26 Mawrth** | **Ballet Jazz Montreal** |
| **31 Mawrth– 2 Ebrill** | **Guys and Dolls** |
| **2 Ebrill** | **Philomusica of Aberystwyth: Tchaikovsky Piano Concerto** |
| **6 – 9 Ebrill** | **Hamlet** |
| **7 Ebrill** | **Albert Lee and Hogan's Heroes** |
| **13 Ebrill** | **Burton** |
| **14 Ebrill** | **The Ryan Rabey Band** |

## Darlithoedd Cyhoeddus

| CANOLFAN MATERION CYFREITHIOL CYMREIG | |
|---|---|
| **9 Mawrth** | **Family Justice and Domestic Violence**<br>Beth Thomas, Gwasanaeth Erlyn y Goron Dyfed Powys<br>7 yr hwyr, 9ed Mawrth 2011, Prif Neuadd Gwleidyddiaeth Rhyngwladol |
| **DARLITH GREGYNOG** | |
| **31 Mawrth** | **Climate Change and Biodiversity – implications for food, water and energy security**<br>Yr Athro Robert Watson, Athro Gwyddorau Amgylcheddol a Chyfarwyddwr Datblygu Strategol Canolfan Tyndall, Prifysgol Dwyrain Anglia.<br>7 yr hwyr, A14 Adeilad Hugh Owen |
| **FFORWM IEITHYDDIAETH ABERYSTWYTH** | |
| **31 Mawrth** | **The (in)visibility of translation.**<br>Yr Athro Christina Scheffner (Athro Astudiaethau Cyfieithu, Aston)<br>6.15 yr hwyr, A14 Adeilad Hugh Owen |
| **5 Mai** | **Harmless Drudges Sifting Bran.**<br>Frank Bott<br>6.15 yr hwyr, A14 Adeilad Hugh Owen |

Y GANOLFAN GERDD



Mae Canolfan Gerdd y Brifysgol yn cynnal dau gyngerdd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ystod tymor y Pasg. *Y Greadigaeth* gan Haydn yw gwaith mawr yr Undeb Gorawl, sef cymdeithas gorawl y Brifysgol sydd ag 80 o aelodau. Byddant yn perfformio'r clasur bythol boblogaidd hwn ar ddydd Sadwrn, y 12fed o Fawrth gyda chyfeiliant cerddorfa lawn a llu o unawdwyr talentog, sef y soprano Katherine Fuge, a ganodd y gwaith yn ddiweddar yng Ngŵyl Caeredin, y tenor James Geer, enillydd gwobr Kathleen Ferrier a'r bariton Njabulo Madlala. Yr arweinydd yw Cyfarwyddwr Cerdd y Brifysgol, Dr David Russell Hulme.

Ar yr 2il o Ebrill, bydd Viv McLean yn ymuno â cherddorfa'r Brifysgol i berfformio concerto 1af Tchaikovsky yn Bb leiaf a darn trawiadol Rachmaninov, y *Dawnsiau Symffonig*. Ysbrydolodd dawnsiau gwahanol iawn eu natur *Agorawd Giwbaidd* George Gershwin a bydd cerddoriaeth liwgar yn cael ei pherfformio hefyd gan Ian Parrott, sy'n 95 mlwydd oed eleni!

Ymunwch â ni mewn dwy noson o gerddoriaeth ragorol a chymerwch ran yn nigwyddiadau cerddoriaeth fyw mawr Aberystwyth. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gerdd ar (01970) 622685. Dilynwch ni ar wefan y Brifysgol ac ar Facebook!

## Ymarfer eich Cymraeg

Cynllun i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff y Brifysgol sy'n mynd o nerth i nerth yw Cynllun Mentora Dysgwyr y Brifysgol . Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer â siaradwyr rhugl unigol mewn sefyllfa anffurfiol, ac mae agos i hanner cant yn gwneud hynny dros baned neu ginio. Os hoffech ymuno â'r cynllun (rydym yn chwilio am siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio ar gampws Gogerddan a Llanbadarn yn benodol) cysylltwch â Gwenno Piette. gws@aber.ac.uk, x 2044).